**LC594**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn diwygio Atodlen 3 i'r prif reoliadau, sy'n rhestru swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb gweithrediaeth awdurdod lleol yn unig.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw i'r modd yr ymddengys ei fod wedi'i ddrafftio'n ddiffygiol wrth enwi pwerau. Ymddengys bod cynnwys adran 32 yn gamgymeriad oherwydd, gan ei fod yn ddarpariaeth sy'n ymwneud â rheoliadau sy'n ymdrin â "threfniadau amgen" awdurdodau lleol yn unig, nid yw'n rhoi unrhyw bwer sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau sydd o dan sylw.

Byddai'n bosibl cywiro'r gwall drafftio bychan hwn trwy femorandwm cywiriadau.

**Sylwadau**

Yn llinell 3 o reoliad 2 dylai "are" fod yn "is".

Ym mharagraff (a) o reoliad 2, mae cynnwys penawdau'r colofnau yn rhoi'r argraff (y cymerir nad yw'n rhan o'r effaith a fwriadwyd) fod penawdau'r colofnau yn rhan o'r testun sydd i'w fewnosod.

Ym mharagraffau (b) ac (c), dylai "diddymir" fod yn "dirymir", yn unol â'r arfer.

Byddai'n bosibl cywiro'r rhain hefyd trwy femorandwm cywiriadau, os y dymunir hynny.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

14 Ionawr 2003